Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Swydd Ddisgrifiad (SDd) – Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS)

# Band 5 NPS

# Cyfarwyddiaeth: Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol / Datblygu a Newid Busnes

# Swydd Ddisgrifiad: Arweinydd Partneriaethau a Rhanddeiliaid

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y Ddogfen** | NPS-JES-0026_Band 5 Partnership and Stakeholder Lead_v2.0 |
| **Math o Ddogfen** | Rheolaethol |
| **Fersiwn** | 2.0 |
| **Dosbarthiad** | Annosbarthedig |
| **Dyddiad Cyhoeddi** | 03/07/19 |
| **Statws** | Gwaelodlin |
| **Cynhyrchwyd gan** | Pennaeth y Grŵp |
| **Awdurdodwyd gan** | Y Tîm Gwobrwyo |
| **Tystiolaeth ar gyfer y SDd** | |

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Arweinydd Partneriaethau a Rhanddeiliaid |
| **Cyfarwyddiaeth** | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol / Datblygu a Newid Busnes |
| **Band** | 5 |

| | |
|---|---|
| **Trosolwg o'r swydd** | Mae'r Arweinydd Partneriaethau a Rhanddeiliaid yn gyfrifol am ddatblygu gallu'r systemau i adeiladu perthnasau gydag uwch randdeiliaid rhwng NPS, y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRCs) a phartneriaethau eraill.<br>Mae gan NPS raglen a meysydd polisi eang ac amrywiol, gyda'r mwyafrif ohonynt yn cael eu cyflawni ar y cyd â phartneriaid eraill - gall yr amrywiaeth hyn ei wneud yn heriol inni gydlynu ein gweithgareddau ac osgoi unrhyw ddryswch. Ni fydd deiliad y swydd yn 'rheoli' gweithgareddau sefydliadau partner a rhanddeiliaid NPS, ond bydd yn gweithredu fel ymgynghorydd i Ddirprwy Gyfarwyddwyr a'u Rhanbarthau, ac yn eu helpu i dargedu eu mewnbwn a dilyn y trywyddau gorau.<br>Mae deiliad y swydd hefyd yn gyfrifol am ddarparu cymorth partner newid busnes i Ddirprwy Gyfarwyddwyr Rhanbarthol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn unol â chyfarwyddyd yr Uwch Reolwr Integreiddio Systemau. |
| **Crynodeb** | Bydd y tîm integreiddio systemau yn gyfrifol am sicrhau bod NPS yn gweithio mor effeithiol ag sy'n bosib gyda'r CRCs a phartneriaid cyflawni eraill. Bydd y rolau yn cynnwys adnabod a chydlynu cyflawni i wella effeithiolrwydd gweithrediadau. Yng Nghymru, bydd y rolau hyn yn mynd y tu hwnt i'r Gwasanaeth Prawf - byddant hefyd yn cynnwys integreiddio'r carchardai / gwasanaeth prawf. |
| **Cyfrifoldebau, Gweithgareddau a Dyletswyddau** | Bydd rhaid i ddeiliad y swydd gyflawni'r cyfrifoldebau, y gweithgareddau a'r dyletswyddau canlynol:<br><br>**Datblygu partneriaethau a rhanddeiliaid**<br>• Darparu mewnwelediad strategol allweddol, i alluogi briffio gweinidogion ar roi newid ar waith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol<br>• Arwain ar waith NPS i ddatblygu dull proffesiynol i reoli rhwydweithiau a rhanddeiliaid allweddol er mwyn darparu mecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer NPS a'i berthnasau gyda Phartneriaid<br>• Ymgymryd â rôl awduro a chomisiynu i sefydlu partneriaethau newydd ac effeithiol ar gyfer NPS<br>• Datblygu dull ar gyfer rheoli perthnasau ar gyfer NPS, yn unol â dulliau HMPPS<br>• Arbrofi gyda syniadau a phrosesau newydd ar gyfer rheoli perthnasau ar draws NPS<br>• Cydlynu datblygiadau Rhanbarthau eraill yng nghyswllt rheoli perthnasau<br>• Cydlynu mewnbwn NPS i brosesau a systemau traws-Whitehall.<br><br>**Gweithredu rheoli newid cysylltiol**<br>• Cynllunio a dylunio'r newid sydd ei angen i wneud partneriaethau gyda phartneriaid cyflawni mor effeithiol ag sy'n bosibl<br>• Cydlynu mewnbwn gweithredol i brosiectau'r Pencadlys i wella rhyngwynebu rhwng rhanddeiliaid a phartneriaid.<br><br>**Cyfathrebu'n effeithiol**<br>• Darparu gwybodaeth, adborth a chyngor<br>• Dylanwadu a pherswadio<br>• Defnyddio sgiliau, arddulliau a dulliau priodol.<br><br>**Gwella eich perfformiad eich hun**<br>• Rheoli adnoddau a datblygiad proffesiynol eich hun. |

| | |
|---|---|
| | **Defnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau allweddol**<br>• Cysylltu â staff i gael, i goladu ac i ddadansoddi gwybodaeth, drwy ddatblygu systemau a llunio adroddiadau yn ôl yr angen<br>• Datblygu a defnyddio data i adnabod patrymau a thueddiadau a gweithredu'n briodol i gynnal a gwella perfformiad<br>• Cynllunio, gweithredu a rheoli systemau o ran cyfnewid gwybodaeth, data a chudd-wybodaeth sensitif.<br><br>**Rheoli amrywiaeth ac ansawdd**<br>• Cyfrannu at ddiwylliant o systemau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth<br>• Rhoi polisïau amrywiaeth y gwasanaeth ar waith a chydweithio'n effeithiol â'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br><br>Mae'r dyletswyddau/cyfrifoldebau a restrir uchod yn disgrifio'r swydd fel y mae ar hyn o bryd, ac nid yw'n rhestr gyflawn. Disgwylir i ddeiliad y swydd dderbyn addasiadau rhesymol a thasgau ychwanegol sydd ar lefel debyg a allai fod yn angenrheidiol. Os bydd addasiadau sylweddol mae'n bosib y bydd angen ystyried y swydd unwaith eto o dan y cynllun Gwerthuso Swydd, a thrafodir hynny â Deiliad y Swydd yn y lle cyntaf. |
| **Ymddygiadau** | • Rheoli Gwasanaeth o Safon<br>• Cydweithio<br>• Newid a Gwella<br>• Gweld y Darlun Mawr<br>• Arweinyddiaeth<br>• Cyfathrebu a Dylanwadu |
| **Cryfderau** | Argymhellir dewis cryfderau yn lleol, awgrymir 4-8 |
| **Profiad hanfodol** | • Profiad o reoli rhanddeiliaid<br>• Profiad o weithredu prosiectau newid yn llwyddiannus<br>• Profiad gweithredol o weithio o fewn cyd-destun Prawf. |
| **Anghenion technegol** | NVQ Lefel 4 neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol (neu brofiad ymarferol perthnasol)<br><br>Microsoft: Word, Excel, Outlook, a PowerPoint |
| **Gallu** | |

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau Gofynnol** | • Bydd archwiliadau adnabod a diogelwch yn cael eu cynnal ar bob ymgeisydd cyn iddynt gychwyn swydd<br>• Bydd rhaid i bob ymgeisydd allanol gwblhau cyfnod prawf o 6 mis. Bydd rhaid i ymgeiswyr mewnol gwblhau cyfnod prawf os nad ydynt eisoes wedi cwblhau cyfnod prawf i HMPPS.<br>• Bydd rhaid i'r holl staff ddatgan a ydynt yn aelod o grŵp neu sefydliad sy'n cael ei ystyried yn hiliol gan HMPPS. |

| | |
|---|---|
| **Oriau Gwaith (Oriau Anghymdeithasol) a Lwfansau** | |

**Proffil Llwyddiant**

| Ymddygiadau | Cryfderau<br><br>Argymhellir dewis cryfderau yn lleol, awgrymir 4-8 | Gallu | Profiad | Technegol |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Gwasanaeth o Safon | . | | Profiad o reoli rhanddeiliaid | NVQ Lefel 4 neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol (neu brofiad ymarferol perthnasol) |
| Cydweithio | | | Profiad o weithredu prosiectau newid yn llwyddiannus | Sgiliau TG; Microsoft: Word, Access, Excel, Outlook, a PowerPoint (neu raglen gyfwerth, e.e. Lotus Notes_ |
| Newid a Gwella | | | Profiad gweithredol o weithio o fewn cyd-destun Prawf | |
| Gweld y Darlun Mawr | | | | |
| Arweinyddiaeth | | | | |
| Cyfathrebu a Dylanwadu | | | | |